# Stori

Yn Rwsia, y mae chwedl am y Tywysog Alecsis. Roedd yn byw mewn palas moethus, ymhell o'r pentref lle'r oedd ei bobl yn byw mewn tlodi mawr. Roedd yn ddyn ifanc caredig ac roedd eisiau helpu'r bobl. Byddai'n mynd i'r pentref i'w gweld yn gyson. Roedden nhw'n ei barchu'n fawr ac yn plygu'n isel wrth iddo fynd heibio. Ond, ni fydden nhw byth yn siarad ag ef nac yn ei wahodd i mewn i'w cartrefi. Roedd y tywysog yn falch eu bod yn ei barchu ond roedd eisiau mwy na hynny. Aeth yn ôl i'r palas yn drist.

Un diwrnod, daeth dyn dieithr i fyw yn y pentref. Roedd yn feddyg, a dywedodd ei fod am helpu'r bobl dlawd. Aeth i fyw i hen dŷ oedd bron wedi mynd â'i ben iddo a dechreuodd weithio. Nid oedd yn codi tâl am ei waith, ond roedd yn dibynnu ar yr hyn a roddai'r bobl iddo – a golygai hynny weithiau fynd heb fwyd neu dân. Gydag amser, newidiodd y meddyg bethau yn y pentref, drwy helpu'r rhai oedd yn cael cam, helpu pobl a fu'n anghytuno i ddod yn ffrindiau, a bod yn gyfaill i'r rhai oedd yn unig.

Un noson, tra oedd yn cysgu, torrodd lladron i mewn i'r hen dŷ. Roedden nhw'n siomedig pan na chawson nhw unrhyw beth o werth ac roedden nhw ar fin melltithio'r dyn a gadael yn waglaw pan welson nhw sach mewn congl dywyll. Wedi ei hagor, dyma ddarganfod coron aur a dillad sidan gwerthfawr. I ffwrdd â nhw gan fynd â'r trysorau gyda nhw. Ond wedi iddyn nhw eu dwyn, ni allen nhw fod yn dawel eu meddyliau oherwydd eu bod wedi deall rhywbeth nad oedd neb arall yn ei wybod. Roedd y meddyg wedi gwasanaethu'r bobl dlawd am flynyddoedd lawer; a'r un yr oedden nhw wedi gwneud cam â fo oedd neb llai na'r Tywysog Alecsis ei hun!

Mae'r chwedl hon yn egluro ychydig i ni pam y ganwyd Iesu ym Methlehem. Y Nadolig cyntaf hwnnw rhoddodd Duw rywbeth mor werthfawr i'r byd fel na allwn ei brisio. Yn Iesu, fe ddaeth Duw i'r byd i fyw ochr yn ochr â dynion a merched. Fe rannodd yn yr holl dristwch, y llawenydd, yr annhegwch a'r poen sydd mewn bywyd. Gwnaeth bobl gam ag ef ac y maen nhw'n dal i wneud hynny. Ond rhoddodd ef ei hun yn gyfan gwbl i ni, heb ddal dim yn ôl, am ei fod yn ein caru gymaint.

**DIWEDD**